# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Bethan Roberts** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 20 Mehefin 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Gareth P Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, Cyng. Lowri Jones.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Anwen Jones, Mary Hayes a Beca Roberts.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Llwybr Rhif 3** - Nodwyd fod y swyddog llwybrau wedi cael sgwrs gyda tenantiaid y tir ac nid oes ganddynt wrthwynebiad i'r gwaith gwella llwybr troed mewn egwyddor - ar y gweill.

3.2 **Seddi Gwag -** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag eto, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu hefo Ysgol Llandygai eto, yn ogystal â Phwyllgor Neuadd Talgai.

3.3 **Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts hefyd wedi gwneud cais am fin ar bont Penrala yn Nhregarth – ar y gweill.

3.4 **Deiseb Gwasanaeth Bws –** Nodwyd fod y deiseb dal yn fyw, ac chytunwyd y bydd pawb yn rhannu eto gyda'i cysylltiadau ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

3.5 **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy –** estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Adroddwyd y Clerc ei fod wedi derbyn ymgynghoriad gyda cynlluniau'r llinellau melyn – ar y gweill.

3.6 **Pontydd Penrala a Coetmor -** Gordyfiant o iorwg ar y pontydd hyn - y Clerc wedi adrodd i Gyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

4. **Llecyn Tir Bont Twr –** Nodwyd fod y Cyng. Dafydd Roberts wedi cyfarfod gyda Savills a Breedon ar yr 20fed o Fai. Yn dilyn y cyfarfod hwn derbyniwyd ohebiaeth ynglŷn â'r perchnogaeth presennol. Cytunwyd bydd y Clerc yn gofyn am gyngor gyfreithiol gan yr adran Lleiniau Tir yn Gyngor Gwynedd.

**5. Gohebiaeth**
Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2024'
**5.1 Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogoledd Cymru – rhagolen wrando ar 20mya –** Os oes gan unrhyw un sylwadau ynglŷn â'r cynlluniau newydd i rhoi wybod i'r Clerc, a'r Clerc i ddanfon ymlaen.
**5.2 Neuadd Goffa Mynydd Llandegai - Cais am rhodd -** Penderfynwyd rhoi rhodd o £850 ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

**6. Gwaith y mis**
**6.1 Lon y Wern –** Adroddwyd fod gwaith clytio wedi ei gwblhau ar hyd y ffordd o ochr yr eglwys.
**6.2 Graffiti Twnel Tywyll –** Nodwyd fod y Cyng. Sian Beidas â'r Clerc wedi adrodd i'r Cyng. Beca Roberts am graffiti newydd yn y twnel, a fod y graffiti wedi gael ei lanhau yn brydlon.
**6.3 Pystiau gol –** Adroddwyd fod yr pystiau hyn wedi cael ei dynnu oddi ar y cae Pel-droed yn Nhregarth, y Clerc i holi Cyngor Gwynedd amdanynt.
**6.4 Car a treilar ger Bro Syr Ifor –** Adroddwyd fod car a treilar wedi'i adael ger y byngalos ym Mhro Syr Ifor ers rhai blynyddoedd pellach. Nodwyd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda cymdeithas tai Adra a Chyngor Gwynedd eisoes, ond heb dderbyn ymateb. Yn dilyn y cyfarfod, atafaelwyd y car gan swyddogion heddlu, ond mae'r trelar dal yno. Cytunwyd bydd y Clerc yn codi pryderon iechyd a diogelwch y trelar gyda'r sefydliad priodol.
**6.5 Tai gwag –** Adroddwyd fod gan y Cyngor bryderon ynglŷn â nifer o eiddo cymdeithasol gwag yn ardal Dregarth. Nodwyd fod o leiaf 3 tŷ gwag yn Nhregarth, gydag un eiddo ym Mro Syr Ifor wedi bod yn wag ers o leiaf 9 mis. Soniwyd fod y Clerc wedi cysylltu eisoes gyda'r gymdeithas tai Adra ynglŷn â'r mater. Penderfynwyd bydd y Clerc yn ysgrifennu llythyr o gŵyn at Brif Weithredwr Cymdeithas Tai Adra, Iwan Trefor Jones, gan danfon copi at y Cyng. Beca Roberts a Sian Gwenllian.
**6.6 Lon Las Ogwen –** Nodwyd fod y paent ar y groesfan sebra ger Chwarel Penrhyn wedi gwisgo, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
**6.7 Croesffordd Llwybr Main/Lon y Grug –** Nodwyd fod angen ail-baentio'r marciau ffordd ar y groesffordd hwn, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**7. Adroddiad Cynrychiolwyr**
**7.1 Canolfan Tregarth** - Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Dafydd Owen am ddatblygiadau diweddar yn y Ganolfan.
**7.2 Ysgol Tregarth** - Adroddwyd bod y Cyng. Sian Beidas wedi mynychu'r cyfarfod Llywodraethwyr diwethaf, a nodwyd fod yr ysgol yng nghanol ymgynghoriad ynglyn a newid amser cau i ddisgyblion cyfnod allweddol 2, mae'r ymgynghoriad ar agor tan y 15fed o Orffennaf.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
8.1 Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**9. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Rhent Canolfan Tregarth | £5.00 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu mis Ebrill | £108.00 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0728/16/LL** | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0095/16/RA** | Breedon, Chwarel Penrhyn<br>Cais ar gyfer rhyddhau amodau 11 (Mesuriadau osgoad rhesymol i warchod ymlusgiaid) , 33 (Adroddiad monitro Gwaun Gynfi), 34 (Sustem draenio dŵr wyneb) a 38 (Cynllun rheoli/strategaeth cynnal archeolegol) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C22/0327/16/AC<br>**Penderfyniad:** Amodau wedi'i rhyddhau. |
| **C24/0048/16/LL** | Ynys Ganol, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu Menage gydag arwyneb tywod a ffibr gyda ffensys Post a Rheilen o'i amgylch ar gyfer defnydd preifat yn unig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0251/16/LL** | Lon Las Ogwen, Porth Penrhyn<br>Gosod mainc ddur a bwrdd dehongli<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0361/16/RA** | Fferm Tan y Foel, Pentir<br>Cais i ryddhau Amod 4 (Deunyddiau Allanol) ac Amod 7 (Dulliau AmgÃ¡u) o ganiatÃ¢d cynllunio C23/0918/16/LL ar gyfer codi annedd gweithiwr amaethyddol a thanc septig cysylltiedig ynghyd a gwaith tirlunio<br>**Penderfyniad:** Amodau wedi'i rhyddhau yn llawn. |
| **C24/0279/16/DT** | Gwalia, 1, Bryn Eglwys, Santes Ann, Mynydd Llandygai<br>Trosi adeilad allanol carreg yn anecs a lleihau maint adeilad allanol pren arall i ddarparu lle ar gyfer mesurau seilwaith gwyrdd.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C24/0292/16/CC** | Pont Sarnau, Bethesda<br>Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed<br>**Penderfyniad:** Caniatwyd gydag amodau. |
| **NP3/16/28C** | Tir ger Maes Parcio Ogwen, Nant Ffrancon, Bethesda.<br>Cynyddu uchder y tŵr telathrebu 15.5m presennol i 17.9m ar gyfer antenâu ychwanegol a gosod offer ychwanegol ar y ddaear mewn compownd estynedig<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0426/16/DT** | Cae Herfyn Cottage Tal Gae, Tregarth<br>Hafdy pren newydd i gymryd lle'r presennol<br>**Penderfyniad:** Sylwadau wedi'i danfon ynglŷn â phryderon y Cyngor o ran troi i lety gwyliau. |

| | |
|---|---|
| **C24/0371/16/LL** | Gorsaf Bws Arriva, Ystad Ddiwydiannol Llandygai<br>Newid Defnydd Swyddfa Depo Bysiau Arriva, Ystad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor, LL57 4YH i ganiatau Canolfan Profi Gyrru Galwedigaethol (defnydd unigryw)<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C24/0422/16/LL** | Heddlu Gogledd Cymru, The Western Traffic Base, Llandygai,<br>Tynnu'r gatiau presennol a gosod gatiau trydan mwy yn eu lle.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**12. Unrhyw fater brys arall**
**Pont y Pandy -** Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen am ei bryderon ynglŷn â'r bont. Mae'r gôr dyfiant o dir ger gwely'r Afon Ogwen yn ei gwneud yn amhosib gweld moduron o unrhyw gyfeiriad. Mae 3 llwybr cyhoeddus ger y safle, ac mae cerddwyr gorfod croesi'r ffordd i ddefnyddio'r palmant, sydd yn hynod o beryglus hefo'r drafnidiaeth drom ar yr A5. Nodwyd hefyd fod cynlluniau am bont newydd wedi cael ei drafod yn y 90au. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd a NMWTRA os oes bosib cael ymchwiliad diogelwch ar y darn hwn o'r ffordd.

**13. Crynodeb Llais Ogwan**
Penderfynwyd cynnwys y canlynol yn grynodeb mis Mehefin:
- Tai gwag
- Car a threlar Bro Syr Ifor
- Goliau Post Cae Pêl droed Tregarth
- Mabolgampau Ysgol Tregarth – 2ail o Orffennaf, 2024
- Seddi gwag